02.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel yn ôl am y tro cyntaf ers tair blynedd

Am y tro cyntaf ers tair blynedd fe fydd rhai o dalentau mwyaf addawol Cymru yn mynd benben â'i gilydd er mwyn cael y cyfle i gipio gwobr o £4,000 a'r teitl anrhydeddus, 'Enillydd Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2022'.

2019 oedd y tro diwethaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal pan gafodd y wobr ei hennill gan y tenor Rhydian Jenkins o Faesteg.

Y chwech fydd yn cystadlu am yr ysgoloriaeth eleni yw: Fflur Davies o Rhostryfan ger Caernarfon sy'n astudio BA Perfformio yn y Drindod yng Nghaerdydd; y pianydd Gwenno Morgan o Fangor sydd bellach yn byw yn Llundain ac sydd newydd raddio o Brifysgol Goldsmiths yn Llundain; Ioan Wyn Williams o Gaerdydd sy'n astudio Dawns ym Mhrifysgol LIPA yn Lerpwl; Mali Elwy sy'n enedigol o Tan-y-fron ger Llansannan ac sy'n astudio BA Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor; y tenor Owain Rowlands o Landeilo, Sir Gar, sy'n byw ac yn astudio yn Llundain; a Rhydian Tiddy sy'n offerynnwr o Landeilo, ond sydd bellach yn byw yn Llundain yn astudio Trombôn Clasurol yn y Royal Academy of Music.

Trystan Ellis-Morris fydd yn datgelu pa un o'r chwe cystadleuydd sydd wedi ennill mewn rhaglen arbennig o Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth nos Sul, 12 Mawrth, 8:00 ar S4C.

Dywedodd Bryn Terfel, "Dyma gyfle euraidd i rai o berfformwyr ifanc gorau Cymru i ddisgleirio ar lwyfan cenedlaethol. Fel un sy'n credu'n gryf mewn gwerth datblygu talent newydd, rydw i wrth fy modd yn gweld yr Ysgoloriaeth yn mynd o nerth i nerth gyda safon y perfformwyr yn gyson o uchel."

Dewiswyd y chwech gan banel o feirniaid oedd yng ngofal dewis y chwe unigolyn mwyaf addawol o blith holl gystadlaethau unigol categorïau dan 25 oed ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Ddinbych 2022.

Y beirniaid fydd yn dewis yr enillydd ar y noson yw Barri Gwilliam, Sioned Terry, Bethan Williams-Jones a Gwennan Gibbard.

Nod y wobr, a sefydlwyd yn 1999, yw helpu perfformwyr ifanc gorau Cymru i gyrraedd llwyfan proffesiynol. Yn achos rhai, mae wedi arwain at yrfa ryngwladol. I'w paratoi ar gyfer eu perfformiadau ar gyfer y gystadleuaeth, mae'r chwe chystadleuydd wedi bod yn cael dosbarthiadau meistr unigol a mentor dros yr wythnosau diwethaf.

Ymhlith y wynebau cyfarwydd sydd wedi bod yn mentora’r cystadleuwyr mae’r soprano Rhian Lois, a enillodd yr ysgoloriaeth yn 2008; yr actor Ffion Dafis; y pianydd Iwan Llewelyn Jones; yr actor sioe gerdd Steffan Harri; yr artist dawns Osian Meilir, a’r trombonydd Dafydd Thomas.

Mae’r chwech hefyd wedi cael sesiynau fel grŵp gan Stifyn Parri ac Angharad Lee.

Ychwanegodd Bryn Terfel, “Pe bawn i'n gallu rhoi un gair o gyngor i'r cystadleuwyr eleni, faswn i'n eu hannog i fwynhau’r profiad gymaint ag y gallan nhw. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at weld y wledd sydd o'n blaenau eleni, a phob lwc i bawb, ewch amdani!"

Ymysg cyn-enillwyr yr Ysgoloriaeth mae’r actores Mirain Haf, y soprano Fflur Wyn, yr actor Aled Pedrick â’r canwr Steffan Rhys Hughes.

**Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2022**
**Nos Sul 12 Mawrth, 8.00, S4C**

**Isdeitlau Saesneg ar gael**

**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a platfformau eraill**
**Cynhyrchiad Afanti i S4C**

02.03.23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# The Urdd Bryn Terfel Scholarship returns for the first time in three years

For the first time in three years, some of Wales' most promising and talented young people will go head to head for the chance to win a £4,000 prize and the prestigious title, 'The Urdd Bryn Terfel Scholarship Winner 2022'.

The competition was last held in 2019 when the prize was won by tenor Rhydian Jenkins from Maesteg.

The six who will compete for the scholarship this year are: Fflur Davies from Rhostryfan near Caernarfon who is studying BA Performance at Trinity St David in Cardiff; the pianist Gwenno Morgan from Bangor who now lives in London and has just graduated from Goldsmiths University in London; Ioan Wyn Williams from Cardiff who is studying Dance at LIPA University in Liverpool; Mali Elwy who was born in Tan-y-fron near Llansannan and is studying BA Welsh at Bangor University; the tenor Owain Rowlands from Llandeilo, Carmarthenshire, who lives and studies in London; and Rhydian Tiddy who is an instrumentalist from Llandeilo, but now lives in London studying Classical Trombone at the Royal Academy of Music.

The presenter Trystan Ellis-Morris will reveal which one of the six competitors has won the prestigious scholarship in a special programme from Aberystwyth Arts Centre on Sunday evening, 12 March at 8pm on S4C.

The renowned bass-baritone opera singer Bryn Terfel said, "This is a golden opportunity for some of Wales' best young performers to shine on a national stage. As someone who strongly believes in the value of developing new talent, I am delighted to see the Scholarship go from strength to strength with the standard of the performers being consistently high."

The six were chosen by a panel of judges who were in charge of choosing the six most promising individuals from among all the individual competitions in categories under the age of 25 at the Urdd National Eisteddfod, Denbighshire 2022.

The judges who will choose the winner on the night are Barri Gwilliam, Sioned Terry, Bethan Williams-Jones and Gwennan Gibbard.

The aim of the award, which was established in 1999, is to help the best young performers in Wales to reach a professional stage. For some, it has led to an international career. To prepare them for their performances for the competition, the six competitors have been having individual master classes and a mentor over the past few weeks.

Among the well-known faces who have been mentoring the competitors are the soprano Rhian Lois, who won the scholarship in 2008; the actor Ffion Dafis; pianist Iwan Llewelyn Jones; the musicals star Steffan Harri; the dance artist Osian Meilir, and the trombonist Dafydd Thomas.

The six have also had sessions as a group from Stifyn Parri and Angharad Lee.

Bryn Terfel added, "If I could give one word of advice to the competitors this year, I would encourage them to enjoy the experience as much as they can. I'm really looking forward to seeing the feast ahead of us this year, and good luck to everyone, go for it!"

Former winners of the Scholarship include the actress Mirain Haf, the soprano Fflur Wyn, the actor Aled Pedrick and the singer Steffan Rhys Hughes.

**Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2022**
**Sunday 12 March, 8.00, S4C**

**English subtitles available**

**Available to watch on demand at: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An Afanti production for S4C**